OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 529 (Cy.74)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*7 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddiaeth cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 7 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn y gymwys i Gymru.

(3) Ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) 1999 (*The Land in Care Scheme (Tir Gofal) (Wales) Regulations 1999*)(**3**).

Diwygio rheoliad 2

2. Ar ddiwedd rheoliad 2 o'r prif Reoliadau ychwaneger y paragraff canlynol:—

"(4) In these Regulations, references to "hardwood" mean Welsh oak only and payments in relation to any other wood are to be made at the "softwood" rate.".

Diwygio Atodlen 2

3.—(1) Diwygir Atodlen 2 i'r prif Reoliadau yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Yn lle paragraff 2 rhoddir:—

"In relation to the management of heath land which is—

(a) high mountain heath and upland heath — £50 per hectare per agreement year

(b) lowland heath — £80 per hectare per agreement year".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1999/1176 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/3337 (Cy. 45) a 2001/423 (Cy.17).

(3) Dilëir paragraff 3(b) a mewnosodir y testun canlynol:

"(b) management of unimproved neutral grassland — £90 per hectare per agreement year".

(4) Dilëir paragraff 3(d) a mewnosodir y testun canlynol:

"(d) management of semi-improved grassland — £90 per hectare per agreement year".

(5) Dilëir paragraff 4(a) a mewnosodir y testun canlynol:

"(a) management of bogs — £40 per hectare per agreement year".

(6) Dilëir paragraph 4(b).

(7) Dilëir paragraph 5(a) a mewnosodir y testun canlynol:

"(a) management of improved land which is coastal grazing marsh or floodplain grassland

(i) lightly grazed — £180 per hectare per agreement year

(ii) moderately grazed — £100 per hectare per agreement year".

Diwygiadau i Atodlen 3

4.—(1) Diwygir Atodlen 3 i'r prif Reoliadau yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 2(c), dilëir is-baragraffau (i) a (ii).

(3) Ym mharagraff 2(c) yn lle is-baragraffau (iii) a (iv) rhoddir:

"(iii) on neutral grassland — £110 per hectare per agreement year

(iv) on acid and limestone grassland — £130 per hectare per agreement year".

(4) Yn lle is-baragraffau 3(e) ac (f) rhoddir:

"(e) establishment of heathland vegetation on acid grassland or maritime cliffs and slopes — £110 per hectare per agreement year".

(5) Yn lle is-baragraffau 3(h) ac (i) rhoddir:

"(h) establishment of new saltmarshes and creation of reedbeds on existing saltmarshes — £230 per hectare per agreement year."

(6) Dilëir paragraff 4.

Diwygio Atodlen 4

5.—(1) Diwygir Atodlen 4 i'r prif Reoliadau yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Ar ôl is-baragraff 1(h) ychwanegir:

"(ha) erection of post, wire and netting fencing which is made of—

softwood — £1.75 per metre

hardwood — £2.00 per metre"

(3) Yn is-baragraff 1(k)(ii) yn lle "£2.60" rhoddir "£2.88".

(4) Yn is-baragraff 1(l)(ii) yn lle "£11" rhoddir "£10.80".

(5) Yn is-baragraff 1(m)(i) yn lle "£110" rhoddir "£120".

(6) Yn is-baragraff 1(m)(ii) yn lle "£160" rhoddir "£144".

(7) Ym mharagraff 3 mewnosodir:

"(c) heather cutting — £60 per hectare".

(8) Yn lle is-baragraff 5(a) rhoddir:

"(a) removal or reduction of bracken by mechanical means or tractor mounted sprayer — £50 per hectare".

(9) Yn lle is-baragraff 5(b) rhoddir:

"(b) removal or reduction of bracken by aerial spraying or hand held sprayer — £120 per hectare".

(10) Dilëir is-baragraff 5(c).

(11) Yn lle is-baragraff 8(a) rhoddir:

"(a) introducing wild plants — £150 per hectare".

(12) Dilëir is-baragraff (b), (c), (d) ac (e) o baragraff (8).

(13) Yn lle is-baragraffau 9(a) rhoddir:

"(a) creation or restoration of a pond — £2.50 per square metre and subject to a maximum of £500 per pond".

(14) Dilëir is-baragraff 9(b).

(15) Yn lle is-baragraff 9(c) rhoddir:

"(c) installation of soil bunds — £35 per bund".

(16) Yn lle is-baragraff 9(d) rhoddir:

"(d) installation of a timber sluice — £140 per sluice".

(17) Yn lle is-baragraff 9(f) rhoddir

"(f) hard surfacing — £5 per square metre".

(18) Dilëir is-baragraff 9(g).

(19) Yn is-baragraff 11(a)(i) yn lle "£100" rhoddir "£120".

(20) Yn is-baragraff 11(a)(ii) yn lle "£150" rhoddir "£144".

(21) Yn is-baragraff 11(b)(i) yn lle "£110" rhoddir "£130".

(22) Yn is-baragraff 11(b)(ii) yn lle "£160" rhoddir "£156".

(23) Dilëir is-baragraff 11(m).

Symiau o Gymhorthdal

6. Yn rheoliad 9 ychwanegir y paragraffau canlynol—

"(3) Payments for capital activities in accordance with Schedule 4 are subject to the following overall limits for the duration of the Tir Gofal agreement—

(a) For farms of less than 20 hectares — £5,000;

(b) For farms of 20-50 hectares — £10,000;

(c) For farms of more than 50 hectares — £20,000.

(4) The Countryside Council may increase any payment in relation to habitats referred to in Schedule 2 or 3 by 10% where cattle have been used to achieve an environmental benefit, and by a further 10% of the original figure where Welsh Black cattle have been so used.".

Darpariaethau trosianol

7.—(1) Caiff y Rheoliadau hyn effaith yn syth mewn perthynas â chytundebau Tir Gofal a lofnodir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu wedi hynny.

(2) Mewn perthynas â chytundebau Tir Gofal a lofnodwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel a ganlyn—